# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-18-09)

**Dyddiad: 15 Hydref 2009**
**Amser: 9.00 – 11.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett, Lesley Griffiths a Karen Sinclair.

### Eitem 2: Craffu ar y Gyllideb Ddrafft – y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod a'i gwahodd i gynnig rhai sylwadau agoriadol. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r tystion.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu mwy o wybodaeth am y prosiectau a ariennir drwy'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.

2.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn gofyn am wybodaeth ynghylch gweithredu'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.

### Eitem 3: Yr Ymchwiliad i lifogydd – Craffu ar y Gweinidog

3.1 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod a'i gwahodd i gynnig sylwadau agoriadol. Gofynnod yr Aelodau gwestiynau i'r Gweinidog.

### Eitem 4: Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor blaenraglen waith y Pwyllgor.